# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2018

Amser: 09.18 - 10.43

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4522

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David J Rowlands AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | Paul Apreda, Deisebydd<br>Dr Sue Whitcombe, Chartered Psychologist |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-05-794 Gostwng yr Oedran Pleidleisio i Un ar Bymtheg

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am gyhoeddi'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygio etholiadol ac annog y deisebwyr a chefnogwyr eraill i gyflwyno eu barn ar hyn.

## 2.2 P-05-795 Achosi Niwsans neu Aflonyddwch ar safleoedd y GIG

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am ymateb pellach gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn ystyried unrhyw gamau pellach ar y ddeiseb.

## 2.3 P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am amser ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn.

## 2.4 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at y Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i rannu'r wybodaeth a ddarparwyd gan y deisebwyr a gofyn a fyddai'r data hirdymor mwy diweddar y cyfeiriwyd ato yn rhan o unrhyw ystyriaeth bellach gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan, cyn ystyried a ddylid cymryd tystiolaeth lafar ar y mater.

# 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

## 3.1 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477/A4075

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros am ddiweddariad pellach gan y deisebwyr mewn perthynas â'u gohebiaeth â chwmnïau cludiant cyn ystyried unrhyw gamau pellach.

## 3.2 P-05-722 Diogelu Anghenion Addysgol Arbennig

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb yng ngoleuni'r cynnig blaenorol i ymgysylltu gan Gyngor Sir Castell-nedd Port Talbot, ac am na dderbyniwyd ymateb yn ddiweddar gan y deisebydd.

## 3.3 P-05-787 Achub Cenhedlaeth y Dyfodol yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb yng ngoleuni boddhad y deisebydd gyda'r wybodaeth a ddarparwyd gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a diolch iddo am ei ymgysylltiad â'r broses ddeisebau.

## 3.4 P-05-742 Peidiwch â gadael i Forsythia gau

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth bresennol yng Nghanolfan Ieuenctid Forsythia ac a ydynt wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda'r Cyngor ynghylch dyfodol y Ganolfan.

## 3.5 P-05-766 Dylid Gwneud Opsiwn Fegan yn Orfodol Mewn Ffreuturiau Cyhoeddus

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb am ei bod yn anodd gweld sut y gall y Pwyllgor ei dwyn ymlaen heb gyswllt gan y deisebydd.

## 3.6 P-05-764 Gwell Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Oedolion

Trafododd y Pwyllgor gefndir y ddeiseb a chytunodd i ystyried y materion a godwyd gan y ddeiseb fel rhan o'i sesiwn dystiolaeth a gaiff ei chynnal cyn bo hir gydag

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddeiseb P-05-736 i Ddarparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mwy Hygyrch.

## 3.7 P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu - adnabyddiaeth a chefnogaeth

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- gwahodd unigolion y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt, ynghyd â byrddau iechyd, Cymdeithas Feddygol Prydain a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig bellach ar y materion a godwyd gan y ddeiseb; ac
- ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofyn a yw wedi ystyried y materion hyn mewn gwaith diweddar, neu'n bwriadu gwneud hynny mewn ymchwiliadau y bydd yn eu cynnal cyn bo hir.

## 3.8 P-05-790 Mynd i'r afael â chysgu ar y stryd

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i wneud y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ymwybodol o'r ddeiseb fel rhan o'i Ymchwiliad presennol i gysgu allan yng Nghymru, ac anfon copi o adroddiad y Pwyllgor hwnnw at y deisebydd unwaith y bydd ar gael.

## 3.9 P-05-778 Amddiffyn Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i anfon sylwadau'r deisebydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig a gofyn am ragor o fanylion am yr astudiaeth ymchwil a gwaith arolygu asesiadau stoc, gan gynnwys pwy fydd yn ei gynnal a'r amserlenni ar gyfer y canlyniadau.

## 4 Sesiwn Dystiolaeth - P-05-751 Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunodd i wahodd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant a CAFCASS i roi tystiolaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol, ac ystyried casglu rhagor o dystiolaeth am y ddeiseb fel rhan o drafodaeth yn y dyfodol am flaenraglen waith y Pwyllgor.